

Beth am eisteddfodau — i ystyried asedau ynni ein cymunedau?

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dweud mai lleol yw'r ateb wrth feddwl am dorri ar ein defnydd o adnoddau'r byd ...

WRTH drafod bod yn 'wyrdd' neu newid hinsawdd, y gri sy'n cael ei chlywed yn gyson ydi hon: "Pa wahaniaeth be wnawn ni yng Nghymru?"

Mae yna rym i'r ddadl. Dim ond 3 miliwn sydd ohonon ni mewn byd o 7 biliwn – llai nag un ym mhob 2000 o bobol y byd tra bod gan China ac India fwy na biliwn yr un a'r Unol Daleithiau 300 miliwn o bobol ac ôl troed carbon anferth.

Ond ryden ni'n defnyddio gwerth 7 miliwn o bobol o adnoddau'r byd, fel y mae hi rŵan, a gwerth 30 miliwn o ystyried fel y dylai hi i fod petaen ni o ddifri am dorri ein defnydd o adnoddau i ddiogelu dyfodol ein plant a phlant ein plant.

Dyna pam ei bod hi mor bwysig cydweithio yn Ewrop ac yn fyd-eang. Ond mae sawl peth yn gwneud cytundebau rhyngwladol yn anodd iawn, fel y gwelwn ni yng Nghopenhagen a Durban yn ddiweddar.

Yn gyntaf, am ein bod ni yn y Gorllewin wedi mwynhau ffyniant am dros ganrif a hanner ar gefn ynni rhad ac ôl troed trwm, mae'r llai breintiedig yn dadlau, gydag arddeliad, mai ni ddylai ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r toriadau a rhoi cyfle iddyn nhwthau dyfu.

CREU STRAEON I GYFIAWNHAU BLAENORIAETHAU HUNANOL

Yn ail, ryden ni'n poeni am ein dyfodol a gwaith yn sgil y dirwasgiad. Mae'r pleidiau gwleidyddol yn galw am dwf economaidd heb hidio llawer am y canlyniadau ymhen 10 neu 20 mlynedd.

Ac mae'r cyfoethog iawn yn defnyddio'u dylanwad a'u harian a'u teyrngarwch i'r farchnad rydd i noddi'r 'diwydiant amheuron' er mwyn amddiffyn eu buddiannau hunanol a gormodedd Wall Street a Dinas Llundain.

Ac ryden ni i gyd yn feistri ar greu storïau i gyfiawnhau ein blaenoriaethau hunanol. Felly gorau oll os oes modd cysoni ein lles personol gyda'r hyn sy'n dda i eraill - ein plant neu dlodion Bangladesh.

Y ddau beth sydd a bydd yn effeithio ar bawb yw cost bwyd a chost tanwydd.

Os bydd y sychder anarferol yn parhau mewn rhannau helaeth o'r Unol Daleithiau a manau eraill, mae peryg y bydd cost grawn yn codi ac yn ei sgil bwydydd eraill.

Er y dirwasgiad yn Ewrop a'r Unol Daleithiau, mae pris olew a nwy'n ddud iawn ac yn debyg o godi - a hynny'n waeth yng ngwledydd Prydain oherwydd lefel isel rhyngwladol y bunt.

EISTEDDFODAU AR GYFER CYNLLUNIAU ARBED YNNI LLEOL?

Felly, mae'n rhesymol dadlau mai cynhyrchu mwy o ynni lleol adnewyddadwy - yn unigolion neu gymunedau - yw tua'r unig ffordd i'n hamddiffyn ein hunain, gan greu gwaith lleol a bod yn lles i eraill.

Dyna'r neges hefyd o ran tyfu mwy o fwyd lleol - mewn ffermydd, gerddi neu randiroedd - ac ailddarganfod bwydydd tymhorol.

Un ffordd ydi meddwl am asedau ein cymunedau - ynni haul (naill ai ffoto-foltaig neu i gynhesu dŵr); melinau gwynt lleol; coed; nwy (methan) o dail, slyri a gwastraff bwyd; cynlluniau ynni dŵr bach (fel yn y dyddiau gynt), gwres o'r ddaear ac o anifeiliaid ac arbed ynni trwy gynllunio call ac ynysu.

Mae gan bob ardal ei chryfderau lleol a beth am eisteddfod newydd – 'eisteddfod ynni' i holl gymunedau Cymru? Nid y côr gorau ond y cynllun gorau i arbed ynni ac i greu ynni i ateb galw lleol.



Canolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth—
ysbrydoliaeth i fentrau ynni lleol Cymru.

Llun: CAT / Tim Soar

[Mawrth 14, 2013]